

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)

28 Mai 2020



Yn bresennol

Eluned Jones, John Hamer, Phil Coates & Rebecca Rees (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd & Rachel Mulholland** (Cefas), **Lucie Skates, Lee Murray, Karen Perrow & Helen Bloomfield** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **David Jones** (Blue Gem Wind/Simply Blue), **Mike Butterfield** (RYA), **Mel Nicholls** (MMO), **Rosie Kelly** (Crown Estate), **Emma McKinley** (SEP), **Claire Stephenson** (RSPB), **John Wrottesley** (ESCA), **Manon Kynaston** (Ynni Morol Cymru), **Eunice Pinn** (Seafish), **Ruth Callaway & Kam Tang** (Prifysgol Abertawe), **Jillian Whyte** (JNCC), **Mark Simmonds** (British Ports), **Michael Igoe** (UK Chamber of Shipping)

1. Roedd y ddogfen Canllawiau Gweithredu bellach wedi'i chwblhau'n derfynol yn dilyn adolygiad polisi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gobeithir y bydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan. Wrth symud ymlaen, byddai diweddaru'r Canllawiau Gweithredu yn broses ailadroddol. Ni fyddai amserlen benodol ond byddai'r canllawiau yn cael eu hadolygu'n barhaus a byddent yn cael eu diweddaru fel y bo angen – gan ystyried yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a dysgu o brofiad. Byddai rhanddeiliaid yn cael gwybod ymlaen llaw ynghylch unrhyw ddiweddariadau fel bod cyfle iddynt gyfrannu ond mae croeso iddynt gyfrannu unrhyw adeg drwy anfon neges at y [blwch post Cynllunio Morol](#). Rhoddwyd crynodeb i'r Grŵp o gynnwys y Canllawiau Gweithredu.
2. Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf i aelodau'r Grŵp ynghylch yr agweddau ehangach ar waith gweithredu'r Cynllun. Roedd dogfen gyfeirio ar drefniadau llywodraethu ar draws y sector wrthi'n cael ei llunio a fyddai'n ystyried yr un sectorau â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a byddai'n trafod swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliadau o fewn ardal y Cynllun Morol. Caiff fersiwn ddrafft gychwynnol o'r ddogfen dechnegol hon a'r testun ynghylch y sector dyframaethu eu rhannu â'r Grŵp hwn ym mis Mehefin. Yn dilyn hyn byddwn yn cydweithio â chynrychiolwyr o'r deg sector arall er mwyn cadarnhau'r ffeithiau a gaiff eu nodi yn y ddogfen. Roedd haen Llywodraethu ar gyfer y Porthol Cynllunio Morol hefyd wrthi'n cael ei datblygu. Roedd y Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol wedi cyfarfod yn rheolaidd ers mis Awst 2018 a chynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror. Roedd y Grŵp wedi derbyn fersiwn ddrafft o'r Canllawiau Gweithredu y llynedd er mwyn cyfrannu at y gwaith o wneud penderfyniadau. Roedd nifer o sesiynau hyfforddi un i un wedi'u cynnal â thîm trwyddedu morol Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Roedd llai o'r rhain wedi'u cynnal yn ddiweddar, fodd bynnag, gan fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i waith sy'n gysylltiedig â COVID-19.
3. Cafwyd diweddariad ynghylch y Paneli Arbenigwyr a oedd wedi'i gynnal ar 14 Mai er mwyn edrych ar brosiect SMMNR EMFF o safbwynt dyframaethu ac ynni adnewyddadwy o ffynonellau dŵr. Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf i'r Paneli Arbenigwyr ynghylch y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a chyflwynwyd y dystiolaeth. Y bwriad oedd cynnal y Paneli Arbenigwyr bob 4-6 wythnos.

4. Cafwyd diweddariad yn y cyfarfod diwethaf ynghylch y Datganiad Ardal Forol a oedd wedi'i lansio ym mis Mawrth. Roedd y Grŵp hwn wedi helpu i bennu'r pedair prif thema o dan y Datganiad Ardal hwn ac roedd y tîm o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n cadw golwg ar yr hyn a oedd yn cael ei gyflawni ac roeddent yn awyddus i gynnwys y Grŵp hwn o fewn y dasg gyntaf sef:
 - Casglu gwybodaeth am y prosiectau/gweithgareddau y mae partneriaid eisoes ynghlwm wrthynt sy'n cefnogi gwaith cyflawni'r camau sydd wedi'u pennu;
 - Cychwyn casglu syniadau gan aelodau'r Grŵp ar gyfer prosiectau/gweithgareddau newydd (a phartneriaid) a allai helpu i gyflawni'r camau ar gyfer cyflawni'r canlyniadau a rennir.
5. Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf i aelodau'r Grŵp ynghylch cynllunio trawsffiniol. Roedd materion trawsffiniol yn parhau i gael eu trafod â chydweithwyr - boed drwy fynychu digwyddiadau ei gilydd, cyfrannu at ymgynghoriadau neu gydgyssylltu canllawiau. Roedd trafodaethau hefyd wedi'u cynnal drwy'r Partneriaethau Arfordirol ac roedd llawer o ymgysylltu â nifer o'r bobl a oedd â diddordeb yn y mater ar draws Ardal Cynllun Morol Cymru drwy'r MPDMG. Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf gan y MMO yn ogystal ynghylch eu hymgyngoriad ar gynlluniau drafft Lloegr. Awgrymwyd y dylai cynllunio trawsffiniol fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp. Cymeradwywyd y cynnig yma.
6. Cafodd eitemau posibl i'w cynnwys mewn agendâu yn y dyfodol eu hawgrymu ac yn eu mysg roedd Dangosyddion ar gyfer Monitro ac Adrodd a Datganiad yr Ardal Forol. Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 9 Gorffennaf.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru